

Cylch Gorchwyl – Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyfres Arholiadau 2020

Diben

1. Diben y grŵp gorchwyl a gorffen hwn yw goruchwylio gwaith Cymwysterau Cymru er mwyn sefydlu trefniadau amgen ar gyfer Cyfres Arholiadau Haf 2020.
2. Mae gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyfres Arholiadau Haf 2020 ("Y Grŵp") awdurdod wedi'i ddirprwyo gan y Bwrdd i gymeradwyo agweddau a amlinellir yn y rôl.

Rôl

3. Rôl y Grŵp yw:
 - Rhoi caniatâd i ymgynghori a goruchwylio'r ymgynghoriad ar yr egwyddorion a fydd yn sail i'r model i 'gyfrifo' graddau a threfniadau ar gyfer unrhyw broses apelio.
 - Ystyried a chymeradwyo egwyddorion a fydd yn sail i'r model i 'gyfrifo' graddau.
 - Ystyried a chymeradwyo trefniadau ar gyfer unrhyw broses apelio.
 - Ystyried cofrestrau risg perthnasol a rhoi cyngor i'r weithrediaeth.
 - Rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch Cyfres Arholiadau 2020.

Aelodaeth a Phresenoldeb

4. Fel rheol, bydd gan y Grŵp bum aelod. Yr Aelodau yw:
 - David B Jones, Cadeirydd (Cadeirydd y Grŵp)
 - Jayne Woods, Aelod o'r Bwrdd (i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg)
 - Claire Morgan, Aelod o'r Bwrdd (Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio)
 - Isabel Nisbet, Aelod o'r Bwrdd
 - Philip Blaker (Prif Swyddog Gweithredol)
5. Penodir aelodau'r Grŵp gan Gadeirydd y Bwrdd sy'n cadw'r hawl, o dan gynllun dirprwyo'r Bwrdd, i ychwanegu neu ddiswyddo aelodau i ddiwallu anghenion y sefydliad.
6. Dylai'r Cyfarwyddwr Gweithredol dros Reoleiddio fynychu'r Grŵp, ond ni fydd yn aelod o'r Grŵp. Efallai y bydd yn ofynnol hefyd i aelodau eraill o staff neu gynghorwyr allanol (gan gynnwys cynghorwyr cyfreithiol) fod yn bresennol o bryd i'w gilydd i gynorthwyo'r Grŵp i gyflawni ei ddyletswyddau.
7. Y **cowrwm** ar gyfer cyfarfodydd y Grŵp fydd tri aelod.

Cymorth

8. Bydd y Grŵp yn cael **cymorth gan** y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a/neu Gyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Corfforaethol, a fydd yn gweinyddu'r ysgrifenyddiaeth.

Modus Operandi

9. Bydd y Grŵp yn **derbyn adroddiadau fel y bo'n briodol**, er enghraifft gan Brif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio'r sefydliad. Bydd yn adrodd i'r Bwrdd trwy ei gofnodion (a gyflwynir gan y Cadeirydd i'r Bwrdd), ac adroddiadau rheolaidd.
10. Cynigir bod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cyfarfod yn ôl yr angen i gyflawni ei ddiben a'i rôl.